YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR

CADW IAITH CADW GWLAD

# Tymor yr Hydref 2021 – Dosbarth Derbyn

## Bant â ni i gynllunio!

Rwy'n hoffi mynd i barc Brynmill.

Elenid

Mae angen cadw'n ddiogel wrth groesi'r ffordd a gwisgo eli haul.

Emily

**Dewis Ardal Chwarae Rôl**

Bwthyn y Tri Arth-**15**

Tŷ Mr a Mrs Tedi - **13**




Rydyn ni'n dysgu pethau yn ysgol.

Florence


Rwy'n hoffi byd natur.

Addiena

Rwy'n hoffi'r ysgol.

Macsen

Hoffwn i wybod mwy am bwy a beth sy'n bwysig i chi.



Rwy'n hoffi chwarae gyda theganau.

Lucas

Rwy'n hoffi anifeiliaid.

Amelia

Rwy'n hoffi lliwiau.

Ioan

Mae cartref a'r teulu yn bwysig i fi.

Mared

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2021 – Dosbarth Derbyn

Syniad mawr y tymor hwn:

**Fy Myd Bach i!**



Dyma rhai o'n syniadau.

**Iechyd a Lles**

- Mynegi hoffterau a chas bethau
- Adnabod pwy sy'n gofalu amdanon ni ac yn ein cadw'n ddiogel e.e. teulu, ffrindiau, athrawon
- Dysgu sut i fod yn ddiogel wrth groesi'r ffordd.
- Ymarfer a datblygu fy sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad
- Mynegi teimladau a dangos ymwybyddiaeth o deimladau eraill
- Meddwl am adegau pan mae pobl yn garedig a meddwl sut allwn ni fod yn garedig i eraill

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Edrych ar, ac efylychu gwaith yr arlunydd Mary Lloyd Jones
- Ymarfer sgiliau arlunio/peintio gyda lliwiau amrywiol
- Arbrofi gyda lliwiau gwahanol, ymchwilio i beth sy'n digwydd wrth eu cymysgu.
- Archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau, prosesau, adnoddau ac offer
- Mwynhau canu caneuon cyfarwydd a rhai newydd
- Cymryd rhan mewn Her Rigymu *Pori Drwy Stori*

**Y Dyniaethau**

- Dangos ymwybyddiaeth o sut yr ydyn ni'n debyg a sut yr ydyn ni'n wahanol
- Bod yn chwilfrydig am y byd o'n cwmpas
- Adnabod pam mae lleoedd yn bwysig a dechrau adnabod lleoedd sy'n gyfarwydd i ni.
- Meddwl am bwy yw'r bobl pwysig i ni, a pham maent yn bwysig e.e. teulu
- Dysgu am draddodiadau Diwali a Nadolig a pham bod y Nadolig yn bwysig i Gristnogion

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Creu cornel chwarae rôl 'Bwthyn y Tri Arth'
- Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Dysgu geirfa, a chaneuon sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Gweithgareddau Tric a Chlic
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol e.e. disgrifiadau, gwahoddiadau, cardiau, rhestri

**Mathemateg a Rhifedd**

- Datblygu dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, darllen ysgrifennu a threfnu rhifau
- Datblygu sgiliau adio a thynnu i ffwrdd
- Dosbarthu gwrthrychau a chasglu data a'i gyflwyno am hoff liw
- Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
- Datrys problemau syml yn ymarferol

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Archwilio'r amgylchedd, gwneud arsylwadau a mynegi meddyliau am y lliwiau o'n cwmpas
- Danogs chwilfrydedd a chwestiynu sut mae creu enfys
- Arsylwi ar bethau gan ddefnyddio sbectol lliw.
- Cynnal ymchwiliadau i rymoedd gan ddefnyddio ceir chwarae.
- 
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.
efnyddio ystod o offer cyfrifiadol yn ddiogel
- Dylunio, creu a gwerthuso addurn Nadolig